

BROCHWEL YSGYTHROG, neu yn fwy cywir 'Ysgithrog,' h.y. y g r â'r ysgythrddant (fl. 550), tywysog

Enw: Brochwel Ysgythrog

Plentyn: Tysilio

Plentyn: Cynan Garwyn

Rhiant: Cyngen Glodrydd

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: tywysog

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: John Edward Lloyd

Yn ôl traddodiad efe oedd y person mwyaf trawiadol yn hen linach tywysogion cynnar Powys, yn gymaint felly ag y daeth y beirdd i alw Powys yn wlad Brochwel. Mab ydoedd i Cyngen a thad Cynan Garwyn a'r [sant Tysilio](#), sefydlydd hen eglwys Meifod. Gan i'w yr, Selyf ap Cynan, gwympto yn y gad wrth arwain y Cymry ym mrwydr Caer (c. 613), nid Brochwel mo'r ' Brochmail ' y dywed Beda iddo chwarae rhan llwfrddyn ar yr un amgylchiad. Yn ôl ystori Melangell, santes Pennant, yn cael ei chadarnhau gan [Gerallt Gymro](#), yr oedd ganddo sedd frenhinol yn Amwythig, sedd nas cymerasid hyd yn hyn gan y Merciaid ac a elwid o dan yr enw Cymraeg Pengwern; weithiau dywedir mai dyma'r man y mae castell Amwythig arno yn awr, eithr ar brydiau eraill dywedir mai lle y saif eglwys S. Chad (Hen) yr oedd.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 180-1, 196, 243, 247

H. Lewis, Thomas Roberts, Ifor Williams (goln), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill, 1350-1450* (Bangor 1925), 356

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Brochwel Ysgithrog](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2714345](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

